

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 27 Tachwedd 2014

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 3 RHAGFYR 2014** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 24 Medi 2014 (copi wedi'i amgáu).

5 AMODAU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG SY'N YMWNEUD Â THIPIO SEDDAU (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn manylu ar gynigion i ddiwygio amodau sy'n ymwneud â thipio seddau mewn cerbydau trwyddedig.

6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15
(Tudalennau 29 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w gymeradwyo.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem(au) busnes canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 14, Rhan 4 Atodlen 12A o'r Ddeddf.

7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 14/0985/TXJDR (Tudalennau 33 - 36)

Ystyried adroddiad cyfrinachol Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 14/0985/TXJDR.

8 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 047689 (Tudalennau 37 - 74)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 047689.

9 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 047857 (Tudalennau 75 - 112)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 047857.

10 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 048126 (Tudalennau 113 - 152)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 048126.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Cefyn Williams (Cadeirydd)

Joan Butterfield
William Cowie
Richard Davies
Stuart Davies
Hugh Irving

Barry Mellor (Is-Gadeirydd)

Pat Jones
Win Mullen-James
Peter Owen
Arwel Roberts

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM
DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO
PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

CAM	DISGRIFIAD
1.	Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol.
2.	Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4.
3.	Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad.
4.	Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras
5.	Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny.
6.	Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion.
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.)
8.	Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol
9.	Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
10.	Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol. DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion.

11.	Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd.
12.	Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd.
13.	Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd.
14.	Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded.
15.	Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn).
16.	Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan: 1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. 2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded.
17.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl.
18.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 24 Medi 2014 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Pat Jones, Barry Mellor (Is-Gadeirydd), Win Mullen-James a Cefyn Williams (Cadeirydd)

Sylwedydd – Y Cynghorydd Meirick Davies

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Swyddogion Trwyddedu (NJ a JT), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (HB), Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (TWE), Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd (IM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Hugh Irving ac Arwel Roberts

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams gysylltiad personol a rhagfarnol ag Eitem 11 ar y Rhaglen - Cais am Drwydded i yrru Cerbydau Hurio Preifat gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd o dan sylw.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2014.

PENDERFYNWYD derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2014 fel cofnod cywir.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

5 GOLLYNGIAD O OFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU RHIF CERBYD HURIO PREIFAT

[Dygwyd yr eitem hon yn ei blaen o fewn trefn y rhaglen gyda chydsyniad y Cadeirydd]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol (a ddisbarthwyd yn flaenorol) gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ynglŷn â –

- (i) chais am ollyngiad o'r gofyniad i arddangos platiau trwydded ar Gerbyd Hurio Preifat;
- (ii) pwerau'r Cyngor i roi gollyngiad i berchennog rhag arddangos y plât trwydded gan gymryd natur uwchraddol y gwaith i ystyriaeth ynghyd ag ansawdd y cerbyd dan sylw a lle y byddai'r cerbyd yn cael ei weithredu;
- (iii) bod yr ymgeisydd wedi darparu manylion llawn am y cerbyd a natur y busnes (Atodiad A), a
- (iv) ffactorau dylanwadol eraill y mae angen eu hystyried ac amodau sy'n cael eu hawgrymu (Atodiad B) pe bai'r aelodau o blaid cymeradwyo'r cais am ollyngiad.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu grynoded o'r adroddiad a oedd hefyd yn argymhell cynhyrchu polisi ynglŷn ag eithrio cerbydau hurio preifat rhag arddangos trwydded cerbyd er mwyn galluogi i geisiadau gael eu hystyried mewn modd cyson yn y dyfodol.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod ac ymhelaethodd ar weithrediad a natur ei fusnes a'r rhesymeg sydd wrth wraidd ei gais am ollyngiad. Cadarnhaodd ei fod wedi darllen yr amodau y bwriedir eu hychwanegu at y gollyngiad os y caiff ei roi a oedd yn cynnwys arwyddo ymrwymiad a nodai ei fod yn llawn ddeall ac yn derbyn yr amodau hynny. Wrth benderfynu ar y cais am ollyngiad -

PENDERFYNWYD

- (a) *cymeradwyo'r cais am ollyngiad o'r gofyniad i arddangos plât trwydded cerbyd hurio preifat a sticeri drws yn amodol ar yr amodau fel y'u nodwyd yn Atodiad B, a*
- (b) *awdurdodi swyddogion i ddiwygio rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor er mwyn amserlennu trafodaeth ar bolisi drafft ynghylch Eithrio Cerbydau Hurio Preifat rhag Arddangos Platiau Trwydded yn un o gyfarfodydd y dyfodol.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

O fod wedi ystyried yr adroddiad a'r hyn yr oedd yr Ymgeisydd wedi ei gyflwyno roedd yr aelodau'n fodlon bod natur y gwaith ac ansawdd y cerbyd yr oedd a wnelo'r cais ag o yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eithrio yn yr achos hwn. Cafodd amodau eu gosod er mwyn cynorthwyo wrth reoleiddio a gorfodi.

SESIWN AGORED

Ar ôl cwblhau trafod y materion uchod, parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

6 POLISI A GWEITHDREFN PWYNTIAU COSB DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Polisi Pwyntiau Cosb a Gweithdrefn ddiwygiedig i'w cymeradwyo.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa eu bod wedi derbyn polisi diwygiedig yn eu cyfarfod diwethaf, ond yn sgil pryderon a godwyd gan y fasnach dacsis a'r ymateb gwan i'r ymgynghoriad, penderfynwyd galw cyfarfod arbennig i ystyried y polisi'n fanwl gan ystyried barn y fasnach dacsis a'r fasnach hurio preifat. Yr oedd ymgynghoriad pellach dros gyfnod o bythefnos wedi cael ei gynnal ac yn dilyn hynny roedd y swyddogion wedi adolygu'r polisi ac wedi gwneud rhai mân newidiadau i'r rhestr o gamweddau / troseddau gan roi ystyriaeth i farn deiliaid trwyddedau yn dilyn bod mewn gweithdy'n ddiweddar gydag aelodau. Roedd y swyddogion hefyd yn argymhell rhedeg y cynllun dros 24 mis.

Cydnabu'r Aelodau i gyfnod sylweddol o amser gael ei dreulio yn adolygu'r polisi, yn enwedig mewn perthynas â dyrannu pwyntiau ar gyfer troseddau penodol, ac roeddynt yn fodlon bod yr holl faterion a godwyd yn flaenorol wedi cael eu trin. O ganlyniad -

PENDERFYNWYD

- (a) *cymeradwyo'r Polisi Pwyntiau Cosb a'r Weithdrefn ddiwygiedig fel y manylir arnynt yn Atodiad A i gymryd lle'r Cynllun Pwyntiau Cosb presennol sydd i'w weld yn y "Llyfr Glas" - Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat y Cyngor, a*
- (b) *gweithredu'r cynllun o 1 Tachwedd 2014, gyda chyfnod gras o fis cyn cyflwyno gorfodaeth o'r cynllun.*

7 IS-DDEDDFAU CERBYDAU HACNI DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Is-Ddeddfau'n ymwneud â rheoleiddio Cerbydau Hacni i'w cymeradwyo er mwyn ymgynghori yn eu cylch.

Roedd y cyfrifoldebau cyfreithiol a'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer trwyddedu cerbydau hacni a'u gyrwyr wedi cael eu nodi o fewn yr adroddiad. Roedd yr is-ddeddfau a fodolai'n ymwneud â'r Rhyl a Phrestatyn ac argymhellwyd bod y Cyngor yn mabwysiadu Is-ddeddfau ar gyfer y Sir gyfan er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth yn gywir ac i sicrhau bod dull teg, tryloyw a chyson yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu ar orfodaeth a materion

eraill sy'n ymwneud â cherbydau a gyrwyr hacni. Roedd yr Adran Drafnidiaeth wedi cynhyrchu set o Is-ddeddfau Enghreifftiol y bu i swyddogion eu hargymell i'w mabwysiadu yn amodol ar ymgynghori â holl berchnogion cerbydau hacni a'r holl yrwyr trwyddedig.

Nododd yr Aelodau yn dilyn ymgynghori y byddai unrhyw sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn er mwyn i aelodau gael eu hystyried cyn eu mabwysiadu.

PENDERFYNWYD *cefnogi Is-ddeddfau Enghreifftiol arfaethedig yr Adran Drafnidiaeth fel y manylir arnynt yn yr atodiad i'r adroddiad ac awdurdodi'r swyddogion i ddechrau ymgynghori â holl berchnogion cerbydau hacni a phob gyrwyr trwyddedig.*

8 COD YMDDYGIAD DA ARFAETHEDIG AR GYFER CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Cod Ymddygiad Da arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i'w gymeradwyo er mwyn ymgynghori yn ei gylch.

Pwrpas y Cod oedd gwella safonau gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat ymhellach a byddai hefyd yn cynorthwyo swyddogion i fonitro cydymffurfiad deiliaid trwydded ac i gymryd camau gorfodi lle bo angen. Roedd yn cynnwys cyfrifoldebau gyrwyr trwyddedig tuag at y fasnach, teithwyr a thrigolion ac mewn safleoedd tacsï ac mewn swyddfeydd, ynghyd â rhai cyfrifoldebau cyffredinol. Pe bai'r aelodau'n cymeradwyo Cod er mwyn ymgynghori yn ei gylch byddai canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn y cyfarfod nesaf.

Amlygodd y Cynghorwyr Joan Butterfield a Barry Mellor fod gormodedd o dacsï yn gweithredu yn ardal y Rhyl a bod hynny yn arwain at densiynau rhwng gyrwyr tacsï, yn enwedig mewn safleoedd tacsï. Codwyd cwestiynau ynglŷn â sut yr oedd rheoli'r broblem a sut yr oedd gorfodi'r Cod, gan gynnwys cadw trefn mewn safleoedd tacsï. Yn sgil y problemau hyn teimlai'r Cynghorydd Mellor y byddai'n fuddiol ystyried cyfyngu ar sawl trwydded cerbyd sy'n cael eu rhoi. Cadarnhaodd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu bod gyrwyr tacsï yn gweithredu safon ymddygiad mewn safleoedd tacsï mewn modd anffurfiol lle'r oedd disgwyl i gwsmeriaid gymryd y tacsï cyntaf ym mlaen y rhes, er nad yw hyn yn gyfrwymol a bod gan y cwsmer ddewis o ran pa gerbyd i'w ddefnyddio. Tra cydnabyddir fod mwy o dacsï nag sydd o leoedd mewn safleoedd tacsï mae gan ddeilydd y drwydded gyfrifoldeb i ddefnyddio safleoedd tacsï yn effeithlon gan ei bod yn anymarferol i Swyddogion Gorfodaeth eu plismona o hyd. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd fod cyfeiriad at fethu â chadw disgyblaeth mewn safleoedd tacsï wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Pwyntiau Cosb. Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Win Mullen-James Cytunodd y swyddogion gynnwys amseroedd o fewn y Cod pan fo'n anghyfreithlon seinio corn y cerbyd.

PENDERFYNWYD *yn amodol ar sylwadau uchod yr Aelodau, i gefnogi'r Cod Ymddygiad Da arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat fel y*

manylir arno yn yr atodiad, ac i awdurdodi Swyddogion i ddechrau ymgynghori yn ei gylch.

9 COD GWISG DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (cylchredwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Cod Gwisg diwygiedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i'w gymeradwyo er mwyn ymgynghori yn ei gylch.

Pwrpas bod â Chod Gwisg ar gyfer gyrwyr trwyddedig oedd gwella safonau a mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â diogelwch a mynd i'r afael â'r argraff y mae ymwelwyr a thrigolion yn ei gael pan wisgir dillad amhriodol. Nid oedd y Cod Gwisg Presennol yn ddigon cynhwysfawr ac wrth ei adolygu cydnabuwyd bod rhaid cael cydbwysedd rhwng cael gyrwyr sy'n cyfleu delwedd dda o'r Sir a pheidio ag effeithio ar ryddid unigolyn i wisgo dillad nad ydynt wedi eu rhagnodi.

Ystyriodd yr Aelodau y safon dderbyniol arfaethedig o ran gwisg o fewn y cod ynghyd â safonau annerbyniol er mwyn annog delwedd broffesiynol o'r fasnach. Holodd y Cynghorydd Bill Cowie beth yw'r gwahaniaeth rhwng crys t gwddf crwn a gwddf agored ac eglurodd y Swyddog Trwyddedu y caiff crys t â choler ei ystyried yn fwy proffesiynol. Roedd y pwyllgor yn gefnogol i gyflwyno cod gwisg llymach er nodi fod rhywfaint o feirniadaeth wedi ymddangos yn y wasg leol yn y cyswllt hwnnw. Cyffelybodd yr aelodau broffesiwn y gyrrwr tacsï i broffesiwn y gyrrwr bws a nodi bod lifrai'n ofynnol ar gyfer gyrwyr bysus a bod hynny'n cyfleu delwedd fwy proffesiynol a thaclus. Nodwyd y byddid yn defnyddio System Pwyntiau Cosb ar gyfer achosion o dorri'r cod gwisg.

PENDERFYNWYD *cefnogi'r Cod Gwisg arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad, ac awdurdodi Swyddogion i ddechrau ymgynghori'n ffurfiol yn ei gylch.*

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu. Cadarnhawyd y gall aelodau gyflwyno ceisiadau i gynnwys eitemau ar y rhaglen waith drwy'r Cadeirydd.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu.*

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

11 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 051260

[Datganodd y Cyngorydd Cefyn Williams gysylltiad personol a rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod tra trafodwyd yr eitem hon. Cymerodd y Cyngorydd Barry Mellor (Is-Gadeirydd) y Gadair.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 051260 am drwydded i yrru cerbydau hurio preifat;
- (ii) nid oedd y swyddogion mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais yng ngoleuni'r wybodaeth a ddatgelwyd yn dilyn datgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
- (iii) roedd crynodeb o'r euogfarnau a ddatgelwyd wedi eu darparu a oedd yn ymwneud â nifer o droseddau sy'n rhychwantu cyfnod o 1965 i 1995 gan gynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â dwyn, troseddau traffig, meddwdod a throseddau ac anonestrwydd eraill sy'n gysylltiedig;
- (iv) polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a
- (v) y ffaith bod yr Ymgeisydd wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei gais ac ateb cwestiynau'r aelodau ynglŷn â hynny.

Darparodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodedd o'r adroddiad ac eglurodd fod y mater wedi cael ei ddwyn gerbron y pwyllgor i asesu addasrwydd yr Ymgeisydd i ddal trwydded yng ngoleuni'r euogfarnau a ddatgelwyd. Dywedodd hefyd nad oedd yr Ymgeisydd yn bresennol gan atgoffa'r aelodau fod y cais wedi ei ohirio ers y cyfarfod diwethaf oherwydd nad oedd yr Ymgeisydd yn bresennol. O ystyried bod yr Ymgeisydd wedi cael dau gyfle i fynychu gwrandawriad yn ymwneud â'i gais, ac heb gael esboniad o'r rheswm dros fod yn absennol, cytunodd y pwyllgor i fwrw ymlaen yn ei absenoldeb.

Ar ôl ystyriaeth ofalus -

PENDERFYNWYD gwrthod cais ymgeisydd rhif 051260 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat.

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd y pwyllgor wedi ystyried y cais yn seiliedig ar y ffeithiau fel y cawsant eu nodi yn yr adroddiad yn unig. Mae difrifoldeb y troseddau a ddatgelwyd yn golygu nad oedd y pwyllgor wedi ei fodloni bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i yrru cerbydau hurio preifat. Gan na chafwyd unrhyw esboniad am ei fethiant i ddatgelu ei euogfarnau wrth gyflwyno ei gais a natur yr euogfarnau hynny nid oedd y pwyllgor yn fodlon cymeradwyo'r cais.

12 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 00327

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

- (i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 00327 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) cwyn a wnaed yn erbyn y Gyrrwr am ymosodiad ym mis Gorffennaf 2014 yr ymchwiliwyd iddi gan Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu (mae crynodeb o'r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion a dogfennau cysylltiedig wedi eu hatodi i'r adroddiad);
- (iii) bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau bod y Gyrrwr wedi cyfaddef i ymosodiad cyffredin wrth gael ei gyfweld a'i fod wedi cael Rhybudd Datrys Cymunedol, a
- (iv) cafodd y Gyrrwr ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod tra adolygir ei drwydded er mwyn gallu ateb cwestiynau'r aelodau ynglŷn â hynny.

Manylodd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (HB) ynglŷn â ffeithiau'r achos a dywedodd fod y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod. Siaradodd y Gyrrwr ger bron y pwyllgor i bledio'i achos o ran adolygu ei drwydded ac ymhelaethodd ynglŷn ag amgylchiadau'r digwyddiad ac egluro ei fersiwn ef o'r digwyddiadau. Roedd yn haeru nifer o'r ffeithiau sydd wedi eu cynnwys yn natganiad y teithiwr, sef y tyst dan sylw, ynghyd â'r cyfrif a ddarparwyd gan yr achwynydd. Cwestiynodd hefyd hygrededd ac ymddygiad yr achwynydd. Er mwyn tystio i'w gymeriad da, roedd y Gyrrwr wedi darparu geirdaon ysgrifenedig i'w hystyried ac fe ymhelaethodd ynglŷn â'i yrfa hir yn gwasanaethu fel gyrrwr tacsï heb fod unrhyw drafferthion blaenorol.

Ymatebodd y Gyrrwr i gwestiynau'r aelodau ynghylch yr honiad o fwlio; safon ymddygiad yn y safle tacsï ac ymddygiad yr achwynydd. Dywedodd hefyd nad oedd yn ymwybodol cyn hynny fod yr hyn a wnaeth yn gyfystyr ag ymosodiad cyffredin.

Yn ei ddatganiad terfynol ymhelaethodd y Gyrrwr ynglŷn â'r safon ymddygiad y mae gyrrwyr tacsï yn ei arfer yn y safle tacsï a chydabod bod gan gwsmeriaid ddewis o ran pa gerbyd i'w ddefnyddio. Dywedodd eto nad oedd y naill deithiwr na'r llall yn yr achos hwn wedi dweud wrtho eu bod yn dymuno defnyddio cerbyd gwahanol.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

PHENDERFYNWYD rhoi rhybudd ffurfiol i Yrrwr Rhif 00327 ynglŷn â'i ymddygiad i'r dyfodol.

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r sylwadau a gyflwynwyd gan y Gyrrwr yn yr achos hwn yn ofalus. Roedd wedi ei dderbyn fod y Gyrrwr wedi cyflawni ymosodiad cyffredin a bod ffrae wedi digwydd ond roedd y pwyllgor o'r farn fod lliniaru digonol wedi digwydd i beidio ag atal neu ddiddymu'r drwydded ac y byddai rhybudd ffurfiol ynglŷn â'i ymddygiad i'r dyfodol yn briodol. Cafodd y gyrrwr ei rybuddio i wneud yn siŵr ei fod yn datrys unrhyw faterion o'r fath drwy ddulliau eraill yn y dyfodol.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr.

13 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 045728

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) addaswydd Gyrrwr Rhif 045728 i ddal trwydded i yrru cerbydau hurio preifat;
- (ii) cwyn a gafwyd ym mis Gorffennaf 2014 yn dweud bod y Gyrrwr wedi cyflawni ymosodiad yn ystod digwyddiad ym mis Mehefin 2014 yr ymchwiliwyd iddo gan Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu (mae crynodeb o'r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion a dogfennau cysylltiedig wedi eu hatodi i'r adroddiad);
- (iii) bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cadarnhau bod y Gyrrwr wrth gael ei gyfweld wedi cyfaddef i'r drosedd a chafodd rybudd am Ymosodiad Cyffredin;
- (iv) bod y Gyrrwr wedi gwrthod mynychu cyfweiliad gyda Swyddogion Gorfodaeth Trwyddedu ac ers hynny wedi dinistrio a ddychwelyd ei fathodyn gyrrwr trwyddedig, a
- (v) bod y Gyrrwr wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod tra adolygir ei drwydded er mwyn gallu ateb cwestiynau'r aelodau ynglŷn â hynny.

Manylodd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (HB) ynglŷn â ffeithiau'r achos a dywedodd nad oedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

PHENDERFYNWYD diddymu trwydded yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat Gyrrwr Rhif 045728 ar sail diogelwch y cyhoedd.

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd y pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad a'r dogfennau cysylltiedig yn ofalus a nodwyd bod y Gyrrwr wedi cyfaddef i achos o ymosodiad cyffredin a bod rhybudd wedi'i roi gan yr Heddlu. O ystyried natur ddifrifol yr ymosodiad a olygodd bod rhaid i'r dioddefwr gael triniaeth yn yr ysbyty a'r ffaith na chynhigiwyd unrhyw liniaru gan y

Gyrrwr roedd y pwyllgor o'r farn nad oedd y gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Gan na allai'r aelodau fod yn sicr parthed diogelwch y cyhoedd penderfynodd y pwyllgor ddiddymu'r drwydded ar sail diogelwch y cyhoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	3 Rhagfyr 2014
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Amodau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat - Newidiadau arfaethedig mewn perthynas â gwyro seddi

1 PWRPAS YR ADRODDIAD

.

Er mwyn i Aelodau ystyried a yw'n briodol i ddileu amod presennol sydd wedi'i gynnwys yn yr Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat (y llyfr Glas) yn ymwneud â gwyro seddi.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhoi trwyddedau hurio preifat i ymgeiswyr sydd â cherbydau sy'n bodloni'r meini prawf trwyddedu a'r fanyleb cerbydau (fel yr amlinellir yn y Llyfr Glas). Mae swyddogion yn bwriadu cael gwared ar Amod 2.1 (h) sy'n ymwneud â seddau yn unol â'r canllawiau diweddaraf yr Adran Gludiant ac yn dilyn pryderon a godwyd gan weithredwyr.

2.2

Dirprwywyd awdurdod i'r swyddogion i roi trwyddedau cerbyd yn unol â'r polisi cyfredol. Ar adegau, pan nad yw cerbyd yn bodloni'r fanyleb cerbyd, rhaid i Swyddogion gyfeirio'r mater i'r Aelodau.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd yr Aelodau'n cofio bod Swyddogion, dros y misoedd diwethaf, wedi gorfod cyfeirio nifer o geisiadau o'r fath nad ydynt yn gallu cydymffurfio ag amod 2.1(h), i'r Pwyllgor. Rhoddir manylion Amod 2.1 (h) y cyfeirir ato isod:

3.2

'Rhaid i ddyluniad a gwneuthuriad pob cerbyd ganiatáu i bob teithiwr gael mynediad clir a dirwysr at allanfa mewn argyfwng. (Ni fydd unrhyw gerbyd yn cael ei drwyddedu dan unrhyw amgylchiadau os yw'n ofynnol i unrhyw deithiwr symud neu wyro unrhyw sedd i fynd i mewn neu allan o

unrhyw sedd maent yn eistedd ynddi yn y cerbyd).'

3.3

